


## Cwrdd Eglwys

Bydd cwrdd eglwys yn Tabernacl, Pen-y-bont a Tabernacl, Porthcawl dydd Sul 22ain o Fehefin i darfod Penderfyniadau i gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Nant Gwrtheyrn wythnos yma. Bydd y dogfennau ar gael yn y capel.

## O e d f a o n

**Mehefin 29, 2025**
Undebol ym Mhorthcawl 11:15
Gweiniodg

**Gorffennaf 6 , 2025**
Undebol ym Mhenybont 9:45
Gweiniodg

**Gorffennaf 13 , 2025**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg


**Gofalaeth Glannau Ogwr**
glannauogwr.cymru

**Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr**
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

**Tabernacl, Porthcawl**
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

**Gweinidog**
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com



Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

# KOINONIA

Gofalaeth Glannau Ogwr
Rhifyn 125
Mehefin 22, 2025


## Gwyn eu byd y Tangnefeddwyr

*"Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant Duw."* — Mathew 5:9

Yn wyneb y tensiynau cynyddol rhwng Iran, Israel a'r UDA, gallwn cael ein llethu gyda phryder ac ofn. A'r cwestiwn yn cael ei ofyn ganddom 'Beth alla i wneud?' Gall fod yn demtasiwn i droi cefn, i ddewis ochr, neu i golli gobaith. Ond mae Iesu'n ein galw i lwybr gwahanol—llwybr anoddach ond sanctaidd: llwybr y tangnefeddwr.

Nid arsylwyr tawel yw tangnefeddwyr. Nid pobl ydynt sy'n gobeithio am heddwch heb weithredu. Maent yn camu i mewn i'r tensiwn gyda gostyngeiddrwydd, dewrder, a thrugaredd. Maent yn adeiladu pontydd lle mae eraill yn gynnau tân. Maent yn dweud y gwir ac yn dangos cariad hyd yn oed pan fo hynny'n gostus.

Mae'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol yn gymhleth yn hanesyddol ac llawn poen. Ond ein rôl ni fel pobl ffydd yw ymateb yn ffyddlon. I fod yn asiantau cymod yn ein cymunedau. I wrthsefyll rhaniadau. I ddewis cariad dros ddial, a thrugaredd dros farn.



Waldo yn Y Tangnefeddwyr sydd yn dweud;

Cenedl dda a chenedl ddrwg –
Dysgent hwy mai rhith yw hyn,
Ond goleuni Crist a ddwg Ryddid
i bob dyn a'i myn. Gwyn eu byd,
daw dydd a'u clyw,
Dangnefeddwyr, plant i Dduw.

Pa beth heno, eu hystâd,
Heno pan fo'r byd yn fflam?
Mae Gwirionedd gyda 'nhad
Mae Maddeuant gyda 'mam.
Gwyn ei byd yr oes a'u clyw,
Dangnefeddwyr, plant i Dduw.


CYNGERDD HAF
Côr Heol y March
Capel Annibynwyr y Tabernacl
Ffordd Derwen,
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1LH
Sul 29 Mehefin 2025,
4.00 yp
Cyfarwyddwr cerdd: Eleri Roberts
Cyfeilydd: Meryn Williams
Unawdwyr: Megan Hastings (soprano)
Alys Thomas (mezzo soprano)
Cesia Rhys Lewis (piano)
Tocynnau: £10 oedolion, £8 consesiynau,
plant dan 12 oed am ddim.
Ar gael ar lein o ...
https://www.trybooking.com/uk/EVRH


EICH GŴYL FACH GYMRAEG!
OGI OGI OGWR
YOUR LITTLE WELSH FESTIVAL!
CROESO CYNNES I BAWB
A WARM WELCOME TO ALL
AM DDIM / FREE


Stondin yr
Ofalaeth
Bydd gan yr ofalaeth stondin yng
Ngŵyl Ogi Ogi Ogwr dydd Sul
Nesaf (29/6/25) rhwng 11-4yp.
Os allwch helpu ar y stondin
Rhowch eich enw lawr ar
y rhestr yn y cyntedd.


Noson Gyri
Gorffennaf 9
6:30yh
Yn yr Ashoka
Croeso cynnes


Gwylnos Heddwch
Tabernacl, Pen-y-bont
Nos Lun Mehefin 23, 7yh
i weddio dros y sefyllfa yn y Dwyrain canol


Gwyn eu byd y tangnefeddwyr,
oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.